







# O’r Cychwyn Cyntaf

# Right from the start

Helpu’ch plentyn yn y flwyddyn cyn ysgol

Helping your child in the Year Before School









CYNNWYS | CONTENTS


| | | |
|---|---|---|
| *Helpu eich plentyn yn y flwyddyn cyn ysgol* | 3 | Helping your child in the year before school |
| *Sut y gall rhieni helpu* | 4 | How parents can help |
| *Siarad a gwrando* | 5 | Talking and listening |
| *Dysgu drwy chwarae* | 6 | Learning through play |
| *Gemau* | 7 | Playing games |
| *Chwarae a gweithio ar ei ben ei hun* | 8 | Playing and working alone |
| *Ymdopi ar eu pennau eu hunain* | 10 | Coping on their own |
| *Eich gadael chi* | 11 | Leaving you |
| *Paratoi ar gyfer iard yr ysgol* | 12 | Getting ready for the school playground |
| *Paratoi ar gyfer cinio yn yr ysgol* | 13 | Getting ready for lunch at school |
| *Ymdopi â theimladau* | 14 | Coping with feelings |
| *Paratoi ar gyfer darllen* | 15 | Getting ready for reading |
| *Paratoi ar gyfer ysgrifennu* | 16 | Getting ready for writing |
| *Paratoi ar gyfer mathemateg* | 17 | Getting ready for maths |
| *Paratoi ar gyfer gwyddoniaeth a thechnoleg* | 18 | Getting ready for science and technology |
| *Dod adref o'r ysgol* | 19 | Coming home from school |

# Helpu eich plentyn yn flwyddyn cyn dechrau'r ysgol

*Mae nifer o rieni yn gofyn sut y gallant helpu eu plant i baratoi ar gyfer yr ysgol, a beth allant wneud adref yn benodol. Mae'r llyfryn yma wedi ei ysgrifennu i ateb ychydig o'r cwestiynau mae rhieni yn eu gofyn, a gobeithio bydd y lluniau yn rhoi cyfle i annog trafodaeth gyda'u plant.*

*Fel rhiant byddwch yn gweld nifer o syniadau yr ydych yn ymwybodol ohonynt yn barod, tra bydd rhai eraill yn newydd i chi. Ar ddiwedd tymor cyntaf eich plentyn yn yr ysgol, bydd athrawon yn trafod cynnydd eich plentyn yn y meysydd yma.*

*Bydd eich plentyn yn dechrau'r ysgol yn fuan. Bydd hyn yn newid mawr i'r ddau ohonoch. Mi all fod yr adeg gyntaf i chi fod ar wahân o'ch gilydd am unrhyw gyfnod estynedig.*

*Efallai eich bod yn petruso am sut bydd eich plentyn yn delio gyda diwrnod ysgol, yr iard chwarae, cinio ysgol a'r holl bethau newydd bydd disgwyl iddo/iddi neud.*

## *Helping your child in the year before school*

Many parents ask how they can help their children get ready for school and what they can do at home to help. This booklet has been written to answer some of the questions parents ask and the pictures will provide plenty to talk about with their children.

As a parent you will find many ideas that you are aware of already, while others may be new to you. At the end of your child's first term in school the teachers will be talking to you about his/her progress in all these areas.

Your child will soon be starting school. This will be a big change for you both. It may be the first time that you have been away from each other for any length of time.

You may feel concerned about how your child will cope with the school day, with the playground, with dinners and with all the new things that he/she may be expected to do.







# *Sut gall rhieni helpu?*
# How parents can help

***Sut all rhieni helpu?***
*Gallwch helpu drwy ddod i adnabod cymaint â phosib am yr ysgol y bydd eich plentyn yn ei mynychu. Gallwch ddarllen llawlyfr yr ysgol, ymweld â'r ysgol a mynychu cyfarfodydd sydd wedi eu trefnu ar gyfer rhieni newydd.*

*Mae plant yn wahanol, ac yn dysgu a thyfu ar gyfradd wahanol. Fel rhieni, gallwch helpu drwy adnabod pa gam o'i ddatblygiad mae eich plentyn chi wedi ei gyrraedd, ac annog y cam nesaf yn ei ddatblygiad.*

*Mae pob plentyn yn dysgu drwy'r profiadau yr ydym yn ei roi iddo a thrwy'r esiampl y byddwn yn ei roi. Mae'n dysgu orau pan fyddwn yn canmol yr ymdrech mae yn ei wneud - hyd yn oed pan na fydd yn llwyddo'n berffaith bob tro!*

**How parents can help**
You can help by getting to know as much as possible about the school your child is going to attend. You can do this by reading the school brochure, by visiting the school and by attending the meetings arranged for new parents.

Children are different and grow and learn at different rates. As parents, you can help by understanding the stage your child has reached and by encouraging the next stage in development.

All children learn through the experiences we give them and by the example we set. They learn best when we praise them for the efforts they make even when they don't quite get it right.



***Siarad a Gwrando***
*Mae plant yn dysgu drwy siarad am y byd o'u cwmpas. Mae'r ffordd yr ydym ni yn siarad gyda phlant yn dangos iddynt sut y dymunwn iddynt siarad gyda ni ac oedolion eraill.*

*Wrth siarad gyda'ch gilydd, rhowch eich sylw i gyd i'r plentyn. Rhowch gyfle iddo/iddi gael ei ddweud. Mae rhoi sylw i'r hyn mae plentyn yn ei ddweud yn rhoi cyfle gwych i gyflwyno geirfa newydd e.e. -"Nes di weld car gwirion? - Efallai mai tacsi oedd o"*
*Os ydych yn gofyn cwestiwn, anogwch fwy nag 'ia' neu 'nage' fel ateb, "Be wnawn ni ar ôl te?" neu "Ble wyt ti yn meddwl mae'r gath wedi mynd?"*

*Sicrhewch sylw llawn eich plentyn cyn gofyn iddo wneud unrhyw beth. Dywedwch ei enw a disgwyl hyd nes y bydd yn edrych arnoch cyn dechrau siarad.*

*Mae'n helpu os yw eich plentyn yn hyderus wrth siarad gyda phobl eraill, oedolion a phlant. Ceisiwch beidio ag ateb ar ei ran/rhan os oes rhywun yn gofyn cwestiwn iddo/iddi, a pheidiwch â phoeni os nad ydyw'n ateb*

*Anogwch eich plant i ofyn cymorth gan eraill. Weithiau gallwch gynnig - "Pam na nei di ofyn i nain i dy helpu?"*

**Talking and listening**
Children learn by talking about the world around them. The way we talk to our children shows them how we would like them to speak to us and to other people.

When talking together, give your child your full attention. Give them time to have their say. Commenting on what he/she says gives you the chance to introduce new words, e.g. "You saw a funny car? - Perhaps it was a taxi."
If you ask questions, encourage more than a Yes or No answer, "What shall we do after tea?", or "Where do you think the cat's gone?"

Make sure you have your child's full attention before you ask him/her to do things. Say your child's name and wait until he/she looks at you before you begin to speak.

It helps if children feel confident talking to other people, both adults and children. Try not to speak for them when someone asks them a question and don't worry if they don't reply.

Encourage them to ask others for help if they need it.





## *Dysgu drwy chwarae*

*Mae chwarae yn help i  ddatblygu iaith a meddwl plant. Maent angen chwarae hefo teganau, chwarae tu allan, chwarae rôl, chwarae gyda phlant eraill.*

*Os oes gan blant frodyr neu chwiorydd, neu eu bod wedi bod mewn meithrinfa neu gylch chwarae, byddant wedi arfer chwarae gyda'i gilydd, rhannu a chymryd eu tro. Os nad ydynt, gallwch helpu drwy wahodd ffrindiau draw i'ch cartref i chwarae.*

*Yn yr ysgol bydd eich plant yn agos i blant eraill, yn rhannu llyfrau, creonau ac adnoddau. Mae rhai plant yn rhannu yn rhwydd, tra bo eraill yn ei chael yn anoddach.*

*Os bydd plentyn yn ei chael hi'n anodd rhannu, gall helpu petai chi yn ymuno pan fydd ffrindiau draw yn chwarae gan annog y plentyn i rannu a chymryd ei dro.*

*Rhai pethau y gallwch eu gwneud gyda'ch gilydd*

- *coginio*
- *chwarae pêl*
- *chwarae rôl siopwr gydag offer o'ch cegin*
- *adeiladu cuddfan o focsys neu dan y bwrdd.*

## Learning through play

Playing helps to develop children's language and thinking. They need to play with toys, to play outside, to pretend, and to learn to play with other children.

If children have brothers and sisters, or have been to a nursery or playgroup, they will be used to playing together, sharing and taking turns. If they haven't, you can help by inviting friends to play at home.

At school your child will be close to other children, sharing books, crayons and equipment. Some children share things easily, others find sharing hard.

If a child finds sharing difficult, it can help if you join in when she has other children home to play encourage them to share and take turns.

Some things you could do together

- cooking
- playing ball
- making a pretend shop with things from your kitchen cupboard
- building a den out of boxes or under the table

**_Chwarae gemau_**
*Mae chwarae gemau yn helpu eich plentyn i ddysgu sut i gymryd ei dro ac i ddatblygu sgiliau canolbwyntio. Mae gemau parti megis "Faint o'r gloch ydi hi Mr Blaidd?" yn gallu bod yn hwyl i'w chwarae gartref.*

*Mae'n rhaid i gemau bwrdd fod yn syml (edrychwch ar y bocs ar gyfer yr oedran priodol)*

*Mae'n fuddiol i ddechrau chwarae gemau gyda dau unigolyn yn unig, oedolyn a phlentyn. Mae gemau gyda gormod o unigolion yn golygu bydd plentyn yn disgwyl yn hir am ei dro.*

*Eglurwch y rheolau yn ofalus cyn dechrau chwarae*

*Cynlluniwch i orffen y gêm cyn i'r plentyn ddiflasu, a rhowch rybudd o pryd y byddwch yn gorffen, e.e. pan fydd pawb arall wedi cael un cynnig arall.*

*Mae ennill yn bwysig iawn i blant bach a gall colli ymddangos fel diwedd y byd! Gallwch helpu eich plentyn i ymateb i hyn drwy drafod ennill a cholli cyn iddo ddigwydd.*
*Mae'n bwysig i anwybyddu unrhyw stwr y bydd plentyn yn ei wneud ac i ganmol unrhyw ymdrech i reoli ei dymer.*

**Playing games**
Playing games helps children learn to take turns and develops concentration. Party games like "Ring a roses" and "The farmer's in his den" can be fun to play at home.

Board games need to be simple (check the box for suggested age group).

It is best to start playing games with just two people, a child and an adult. Games with too many people mean that children have to wait too long for a turn.

Explain the rules carefully before you begin to play.

Plan to end the game before he gets tired or bored and give some warning about when you will finish, for example, when everyone else has had one more turn.

Winning is very important to young children and losing can seem a disaster. You can help your child to cope by talking about losing before it happens.

It is important to ignore any big fuss he may make and to praise his efforts to control his tears or anger.







## ***Chwarae a gweithio ar ei ben ei hun***

*Yn y dosbarth mae angen i blant allu gweithio a chwarae ar eu pennau eu hunain. Os ydych yn dymuno dysgu eich plentyn sut i chwarae ar ei ben ei hun, rhowch offer allan ar gyfer dwy weithgaredd fel bod ganddo ddewis. Rhowch ychydig o gymorth iddo i ddechrau chwarae cyn diflannu i'ch tasgau chi eich hun.*

*Sicrhewch fod popeth yn iawn o dro i dro.*

*Gadewch iddo helpu hefo tasgau syml o amgylch y cartref a'r ardd. Anogwch o i orffen beth mae'n ei wneud cyn dechrau rhywbeth newydd.*

*Yn yr ysgol bydd disgwyl iddo gadw ei hoffer. Gall plant ifanc iawn fwynhau cadw pethau os byddwch yn ei wneud gyda'ch gilydd ac yn ei drin fel gêm.*

*Mae angen i blant wybod ble mae pethau yn cael eu cadw. Mae'n fuddiol i gael bocsys ar gyfer teganau a phegiau a droriau y gall plant gyrraedd atynt eu hunain.*



## **Playing and working alone**

In the classroom children need to be able to play and work on their own. If you want your child to learn to play by herself, put out toys for two activities so that she can choose. Help her to get started before getting on with what you are doing.

Check that all is well from time to time.

Let her help with simple jobs around the house and garden. Encourage her to finish what she is doing before starting something new.

At school she will be expected to put her own things away. Even quite young children enjoy putting things away if you do it together and treat it as a game.

Children need to know where things are kept. It helps to have boxes for toys and pegs and drawers which children can reach themselves.















***Ymdopi ar eu ben eu hunain***

*Y peth cyntaf fydd eich plant yn ei wneud wrth fynd i'r ysgol fydd tynnu eu cotiau yn yr ystafell gotiau. Bydd rhaid iddynt wisgo a dadwisgo ar gyfer ymarfer corff gyda'u cyfoedion. Bydd eich plentyn yn teimlo'n llawer iawn mwy hyderus os bydd yn gallu gwneud y pethau hyn heb gymorth.*

*Gallwch helpu drwy ddewis dillad sydd yn hawdd eu gwisgo. Ceisiwch osgoi ddillad sy'n cau yn y cefn. Dewiswch dop sydd yn ffitio yn hawdd dros y pen, a throwsus sydd yn dod i ffwrdd yn hawdd. Os yn bosibl dewiswch esgidiau sydd yn defnyddio felcro neu fwcl.*

*Mae'n rhaid i blentyn fedru ymdopi yn y tŷ bach hefyd. Dysgwch ef/hi i fynd ei hun gartref. Atgoffwch eich plentyn i ddefnyddio papur toiled ac i olchi ei ddwylo wedyn. Pan fydd y tu allan, anogwch ef i ddefnyddio'r tŷ bach ble'n bosib, er mwyn iddo arfer gyda sefyllfaoedd gwahanol.*

*Yn ystod eich ymweliad cyntaf â'r ysgol, holwch am fynd i'r toiled a sicrhewch fod y plentyn yn ymwybodol o'i leoliad. Mae ysgolion yn deall bod gan rai teuluoedd o gefndiroedd gwahanol gonsyrn am breifatrwydd, felly sgwrsiwch gyda ni os yw hyn yn ymwneud â chi.*

**Coping on their own**

The first thing that children do when they go into school is take off their coats in the cloakroom. They may soon also have to dress and undress for PE with their classmates. Your child will feel more confident if he can manage without much help.

You can help by choosing clothes which are easy to put on. Try to avoid fastenings at the back. Choose tops that fit easily over the head, and trousers that pull down easily. If possible, buy shoes with Velcro fasteners or buckles.

Children also need to be able to cope in the toilet. Teach him to go on his own at home. Remind him to use toilet-paper and to wash his hands afterwards. When you are out, encourage him to use the toilet so that he becomes used to different situations.

On a first visit to the school, ask about going to the toilet and make sure he is shown where it is. Schools understand that some families from different cultural backgrounds have concerns about privacy so do talk to the teacher if this applies to your child.

## *Eich Gadael chi*

*I lawer o blant, mynd i'r ysgol yw'r tro cyntaf iddynt gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni am unrhyw gyfnod estynedig.*

*Os ydynt wedi bod mewn meithrinfa neu gyda gwarchodwyr plant, byddant wedi arfer bod hebddoch am ychydig oriau.*

*Os nad ydynt, gallwch baratoi eich plentyn ar gyfer hyn drwy eu gadael mewn tŷ ffrind am ychydig o oriau. Fel hyn gall ddod i arfer cael ei adael ar ei ben ei hun, a chael ei warchod gan rywun arall. Gadewch o am gyfnod byr i ddechrau. Hyd yn oed os ydi plentyn wedi arfer cael bod ar ei ben ei hun am gyfnodau, mae dechrau'r ysgol yn gam mawr.*

*Siaradwch gyda'ch plentyn am ddechrau'r ysgol, am ddweud hwyl fawr, ac yn bwysicach na dim, am bwy fydd yn disgwyl amdano ar ddiwedd y dydd.*

*Ceisiwch ddarganfod gan eich ysgol beth fydd eich plentyn yn ei wneud mewn argyfwng, a sicrhewch ei fod yn gwybod beth i'w wneud.*

## Leaving you

For many children, going to school is the first time they have been separated from Mum or Dad for any length of time.

If your child has been to playgroup or to a child-minder, she will be used to you leaving her and to being without you for a few hours.

If she hasn't, you can prepare her by leaving her at a friend's house to play or for tea. This way she will get used to being left and to being looked after by someone else. Leave her for just a short while to start with. Even if she is used to being away from you starting school is still a big step.

Talk to her about going to school, about saying good-bye and, most important, about who will be waiting for him/her at the end of school.

Find out from your school what your child should do in an emergency if you are not there to meet her, and make sure he/she knows what to do.







***Paratoi ar gyfer iard yr ysgol***

*Er bod gan y plant bach iard eu hunain, yn Ysgol Llanfair Pwll, pan fydd eich plentyn yn mynd i'r ysgol, efallai bydd adegau pan fydd yn treulio ei amser chwarae ar iard yr ysgol gyda phlant hyn. I rai plant, gall fod yn ddryslydl. Mae'n ddefnyddiol os yw eisoes wedi arfer chwarae gyda phlant eraill mewn ardaloedd agored mawr - megis parc lleol. Yn anffodus, nid yw byth yn ddiogel i adael plant o'r oed yma heb oruchwyliaeth oedolyn. Os ydych yn eistedd ar fainc ac yn ei wylio yn chwarae, mi fydd yn dysgu ymuno yn y chwarae, ac yn llwyddo i wneud hyn hebddoch chi wrth ei ochr bob amser.*

*Mae nifer o rieni yn poeni am fwlïo ar iard yr ysgol. Gadewch i'ch plentyn wybod y bydd oedolion ar yr iard drwy gydol yr amser i adrodd os aith rhywbeth o'i le.*

**Getting ready for the school playground**

Even though we have a small playground for the reception class, when your child goes to school he may spend playtime in a busy playground with a lot of bigger children. For some children this can be a little overwhelming. It is helpful if he is used to playing alongside other children in a big open space such as the local park. Unfortunately, it is never safe to leave children of this age without adult supervision. If you sit on a bench and watch him while he plays, he will learn to join in and manage without you always at his side.

Many parents worry about bullying in school playgrounds. Let your child know that there are always helpful grown-ups in the playground to tell if things go wrong.

## ***Paratoi ar gyfer cinio yn yr ysgol***

*Os bydd plant yn cael cinio ysgol bydd disgwyl iddynt ddefnyddio cyllell a fforc i fwyta eu bwyd. Wrth gwrs bydd cymorth ar gael petaent ei angen - ond byddant yn llawer iawn mwy hyderus os byddant yn gallu ymarfer gartref.*

*Siaradwch hefo'ch plentyn am ginio ysgol, am eistedd hefo nifer o blant eraill ac am drio bwydydd gwahanol.*

*Ar eich â'r ysgol, holwch am amser cinio, a sut bydd plentyn yn gadael i rywun wybod am yr hyn maent yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi. Sicrhewch fod yr ysgol yn ymwybodol o unrhyw ofynion dietegol.*

*Os bydd yn cael brechdanau, prynwch focs bwyd iddo cyn iddo ddechrau yn yr ysgol a chwaraewch ar gael cinio ysgol gartref. Gwahoddwch ffrind drosodd a rhowch focsys i'r ddau ohonynt.*

*Gwnewch yn siwr ei fod yn gallu agor y bocs bwyd, ac unrhyw gynhwysydd arall y byddwch yn ei roi iddo, megis pot iogwrt, carton diod.*

## **Getting ready for lunch at school**

If children are having a school meal, they may be expected to use a knife and fork to eat their dinner. Of course, they will be given help if they need it, but your child will feel more confident if she practices at home.

Talk to her about dinner at school, about sitting with a lot of other children and about trying new foods.

On your visit to school, ask about lunch-time and how children can let people know about their likes and dislikes. Make sure that the school knows about any special dietary needs your child may have.

If she is going to have sandwiches, buy a lunch box before she starts school and play at having a school dinner. Invite a friend to play and give them both sandwiches from boxes just like school.

Make sure she is able to open her box and all the different containers you may give her, like yoghurt pots, packets or drink cartons.



***Ymdopi â theimladau***

*Nid yw pob dim yn mynd yn esmwyth drwy gydol yr amser.*

*Mae plant ifanc yn ei chael hi'n anodd rheoli eu tymer a'u rhwystredigaeth pan fydd pethau'n mynd o chwith, neu pan fyddant yn colli mewn gêm, neu pan na allant lwyddo i wneud rhywbeth.*

*Helpwch eich plentyn drwy aros yn dawel eich hun. Gadewch iddo wybod eich bod yn ymwybodol o'i deimladau, a'i bod yn iawn i deimlo yn flin, ond nid i frifo rhywun arall.*

*Pan fydd yn dawel unwaith eto, siaradwch gydag ef am sut y mae'n teimlo, ac am ffyrdd mwy priodol o ymddwyn. Canmolwch ef pan fydd yn dechrau rheoli ei dymer a'i ddagrau.*

**Coping with feelings**

Things don't always go the way we want them to.

Young children find it hard to control their anger and frustration, when things go wrong, when they can't have their own way, when they lose a game, or when they can't quite manage things.

Help your child by staying calm yourself. Let him know that you understand his feelings and make it clear to him that it is OK to feel angry but not OK to hurt other people.

When he is calm again, talk to him about how he feels and about other, better ways to behave. Praise him as he begins to control his tears and his temper.







## *Paratoi ar gyfer darllen*

*Mae mwynhau llyfrau yn ddechrau da ar gyfer darllen.*

*Yn yr ysgol bydd plant yn gwrando ar staeon â ddarllenir i'r dosbarth cyfan. Byddant hefyd yn edrych ar lyfrau yn dawel gyda'u ffrindiau.*

*Gartref gallwch annog y diddordeb yma mewn llyfrau a storïau drwy ddarllen i'ch plentyn ac edrych ar lyfrau lluniau. Siaradwch am y stori, ac am beth sydd yn digwydd yn y lluniau. Mae gwrando ar stori yn y car neu yn y gwely yn gallu bod yn hwyl hefyd.*

*Mae mwynhau a dysgu rhigymau yn gam mawr tuag at ddarllen yn ogystal. Ceisiwch adael y gair olaf allan fel bod y plentyn yn ei orffen, e.e. "Mi welais Jac y ...."*

*Mae sylwi ar eiriau o'n cwmpas yn gam mawr ymlaen tuag at ddarllen hefyd. Tynnwch sylw plentyn at labeli, enwau strydoedd, ac enw'r plentyn ei hun. Byddwch yn sylwi ei fod yn adnabod llythyren gyntaf ei enw mewn geiriau eraill ac yn dweud - "Dyna L am Lisa".*

*Anogwch yr holl deulu i ddarllen straeon ac i ganu neu adrodd rhigymau iddo.*

## Getting ready for reading

Enjoying books is a good start to reading.

At school children listen to stories read to the whole class. They also look at books quietly on their own or with a friend.

At home you can encourage an interest in books and stories by reading to her and looking at picture-books. You can talk about the story and what is happening in the pictures. Listening to a story on a tape in bed or on a car journey can also be fun.

Enjoying and learning rhymes is an important step towards reading. Try leaving off the last word for your child to finish, for example, "Jack and Jill went up the ..."

Noticing words all around us is another step on the way to reading. Point out labels, street names and road signs and your child's own name. You will find that she will soon notice the first letter of her name in other words and proudly say, "That's an L for Lisa".

Encourage all the family to read stories or to sing or say nursery rhymes to him/her.

***Paratoi ar gyfer ysgrifennu***

Cyn iddynt fod yn gallu ysgrifennu, mae plant angen cryn dipyn o amser yn tynnu llun ac yn lliwio, yn torri allan ac yn gludo.

Efallai bydd eich plentyn yn defnyddio ei ddwy law i ddechrau Mae rhai plant yn cymryd amser hir cyn penderfynu pa law y byddant yn ei defnyddio amlaf.

Mae  plentyn angen deall beth ydi pwrpas ysgrifennu. Gadewch iddo eich gweld chi yn ysgrifennu rhestr siopa neu nodyn ar gyfer y dyn llefrith.

Yn y dechrau, bydd plant yn galw eu sgribl yn ysgrifen ac mae'n bwysig eich bod yn gadael iddynt ddarllen yr hyn a dybiant eu bod wedi ysgrifennu.
Pan fyddant yn dechrau gwneud siapiau sydd yn debyg i lythrennau, byddant yn barod i rywun ddangos iddynt sut i wneud y llythrennau yn gywir.

Gallwch ofyn yn yr ysgol am y math o ysgrifen maent yn ei ddefnyddio. Gwnewch yn siwr fod eich plentyn yn gafael mewn pensil yn gyffoddus rhwng ei fawd ai fys cyntaf.





**Getting ready for writing**

Before they begin to write, children need lots of time to draw and colour, to cut out and stick.

Your child may use both hands to start with. Some children take a long time to settle on the right or the left.

Children need to understand what writing is for.
Let him see you write shopping lists, notes to the milkman, letters to Gran.

At first, children call their scribble 'writing' and it is important that you let him 'read' to you what he wants it to say.

When he begins to make shapes that look a bit like letters he will be ready to be shown how to make letters correctly.

You can ask at school about the style of writing they use. Do check that he is holding the pencil comfortably between the thumb and first finger.




**Paratoi ar gyfer maths**
*Mae mathemateg o'n cwmpas ymhob man, mewn siâp a maint, amser a gofod, cydweddu a mesur yn ogystal â chyfrif a rhifau.*

*Mae plant yn dysgu sortio pan fyddant yn cadw cyllyll a ffyrc. Maent yn dysgu am faint wrth roi eu teganau mewn rhes, neu wisgo esgidiau dad. Maent yn cyfrif, adio a chymharu wrth iddynt ddringo'r grisiau wrth ddarganfod darn o linyn sydd yn ddigon hir i gau parsel.*

*Maent yn dysgu adnabod rhifau wrth edrych ar ddrws tŷ, neu pan fyddant yn gweld cerdyn pen-blwydd.*

*Maent yn dysgu am amser pan fyddwch yn son am ddoe ac yfory a phan fyddwch yn deud y byddwch gartref am 6 o'r gloch.*

**Getting ready for maths**
Maths is all around us. It is about shapes and sizes, time and space, matching and measuring, as well as numbers and counting.

Children learn to sort when they put the spoons and forks away. They learn about size as they line up their toy cars or put on Daddy's shoes and find they are too big. They count, add up and compare as they climb the stairs or find a piece of string long enough to tie up the parcel.

They learn to recognise numbers from the front door and when they see them on birthday cards.

They learn about time when you talk about yesterday and tomorrow and when you say you'll be home at 6 o'clock.

***Paratoi ar gyfer gwyddoniaeth a thechnoleg***

*Dod i wybod am y byd o'n cwmpas yw'r cam cyntaf mewn dysgu am wyddoniaeth. Mae plant yn ymholgar ac yn mwynhau dysgu am sut mae pethau yn edrych, teimlo, blasu neu arogli. Maent yn dysgu am y byd wrth iddynt balu yn yr ardd gefn, neu yn neidio i mewn i bwll dwr. Maent yn gweld sut mae pethau yn newid wrth goginio neu wrth edrych ar gysgod ar lawr. Maent yn dysgu wrth edrych ar bethau yn tyfu ac wrth warchod anifeiliaid.*

*Mae plant yn gofyn "Pam?" yn aml. Gallwch hefyd eu hannog nhw i ofyn "Beth petai?" Efallai na fyddwch yn gwybod yr ateb, ond gallwch ddarganfod yr ateb gyda'ch gilydd.*

*Mae technoleg yn golygu datgymalu pethau yn ogystal ag adeiladu. Mae plant yn mwynhau gwneud pethau allan o geriach - papur, llinyn, darnau pren a.y.y.b. Mae eich gwylio chi yn trwsio rhywbeth o amgylch y ty, chwarae hefo Lego yn eu cynorthwyo i weld sut mae pethau yn gweithio.*

**Getting ready for science and technology**

Finding out about the world around us is the beginning of science. Children are very curious and like to find out how things feel, look, taste and smell. They learn about the world as they dig in the garden or splash in a muddy puddle. They see how things change when they help to make a cake or watch their shadow on the ground. They learn as they watch things grow and when they look after animals.

Children frequently ask "Why?" You can also encourage them to ask "What if?"
You may not always know the answer but you can try and find out together.

Technology involves taking things apart as well as making things. Children like to make things out of odds and ends - paper, string, bits of wood etc. Watching you mend things around the house, playing with Lego and other construction toys helps them to understand how things work.










***Dod adref o'r ysgol.***

*Mae'r rhan fwyaf o blant wedi blino'n lân erbyn diwedd eu diwrnod yn yr ysgol, a gallant fod yn flin a diserch. Mae rhoi rhywbeth i'w fwyta yn gallu helpu weithiau. Efallai bydd eich plentyn angen treulio amser gyda chi, neu ar ei ben ei hun. Dim ond chi fydd yn gwybod beth fydd ei angen fwyaf. Ceisiwch wneud ychydig o amser i fod gydag eich plentyn ar ôl yr ysgol.*

*Mae ysgol yn gallu bod yn hynod o flinedig ar y cychwyn, a gall gwely cynnar helpu.*

*Gyda'r holl gymorth y byddwch yn ei roi iddynt a chyda help gan yr athrawon, bydd eich plentyn yn cael dechrau da i nifer o flynyddoedd hapus yn yr ysgol.*

**Coming home from school**

Most children are very tired by the end of the school day and can be cross and grumpy. Giving them something to eat often helps. Your child may want to spend time close to you or to be left quietly on her own. Only you will know what she needs most. Try to make some time to be with him/her after school.

School days can be especially tiring at first and an early bedtime can be a help.

With all the support you have given them and with the help of the teachers, your children will have a good start to many happy years at school.

© Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll 2016